

PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

(O BELL TRWY TEAMS)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Mercher, 28 Gorffennaf 2021

Cadeirydd: Cyngorydd S.Rahaman

Is-gadeirydd: Cyngorydd S.E.Freeguard

Cynghorwyr: N.T.Hunt, S.K.Hunt, D.Keogh, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, S.Paddison, L.M.Purcell, S.M.Penry, S.H.Reynolds, R.L.Taylor, A.N.Woolcock a/ac W.F.Griffiths

Swyddogion sy'n Bresennol: K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, D.Griffiths, H.Jenkins, C.Griffiths, S.Brennan, M.Shaw, C.Davies a/ac J.Woodman-Ralph

Gwahoddedigion y Cabinet: Cynghorwyr C.Clement-Williams, M.Harvey, D.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards a/ac A.Wingrave

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Hysbyswyd y pwyllgor am newid i'r adroddiad canlynol ar Agenda Bwrdd y Cabinet:

- Eitem 7 ar yr Agenda – Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf 2021/2022 – Roedd y Rheswm dros y Penderfyniad a Rhoi'r Penderfyniad ar Waith wedi'u hepgor o'r adroddiad.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol mai'r Rheswm dros y Penderfyniad oedd i sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio â'r Cyfansoddiad a bod y gyllideb yn cael ei diweddarau, ac y byddai'r broses o Roi'r Penderfyniad ar Waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

Yn dilyn y diweddariad, roedd yr aelodau'n hapus gyda'r newidiadau, felly dewiswyd peidio â chraffu ar yr adroddiad.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiad personol o fuddiant:

Y Cyng. S Rahaman - Parthed. Eitem Frys 12 – Cynnig i ddarparu parcio am ddim yng nghanol y dref ar gyfer mis Awst 2021 gan ei fod yn berchen ar fusnes o fewn yr ardaloedd yr effeithir arnynt a grybwyllir yn yr adroddiad.

Y Cyng. N. Hunt - Re. Eitem Frys 12 – Cynnig i ddarparu maes parcio am ddim yng nghanol y dref ar gyfer mis Awst 2021 gan ei fod yn berchen ar fusnes o fewn yr ardaloedd yr effeithir arnynt a grybwyllir yn yr adroddiad.

3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- 12 Mai 2021
- 2 Mehefin 2021

4. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Monitro'r gyllideb a'r Adroddiad Diweddarau 2021/22

Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau mewn perthynas â rhagamcanion cyllideb cyfredol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod y cyngor yn gynnwys iawn ym mlwyddyn ariannol 2021/22 a bod yr adroddiad yn sefyllfa diweddarau monitro cyllideb a gyfrifwyd ar ddiwedd mis Mai 2021 ac a rhagwelwyd hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022. Dywedwyd ar hyn o bryd y rhagwelwyd y bydd cyllideb net yr awdurdod yn tanwario £178,000 eleni; adlewyrchwyd rhai amrywiadau yn yr adroddiad, ynghyd â nifer o dybiaethau y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu arian o Gronfa Caledi Awdurdodau Lleol i gefnogi cynnydd

mewn costau ac incwm a gollwyd. Soniwyd bod swyddogion yn dal i aros am eglurhad ar ychydig o'r arian hwnnw a bydd yr aelodau'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bob mis.

Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn rhagweld y byddai nifer cynyddol o blant yn gorfod mynd i ofal preswyl; Gofynnodd yr aelodau a oedd hyn o ganlyniad i bwysau'r cyfyngiadau symud ar deuluoedd sy'n agored i niwed. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai fod cynnydd sylweddol mewn materion iechyd meddwl ymhlith pobl ifanc o ganlyniad i bwysau'r cyfyngiadau symud; bu cynnydd hefyd yn nifer y teuluoedd mewn gofid sylweddol o ganlyniad i gael eu cyfyngu gyda'i gilydd am gyfnodau hir o amser. Dywedwyd bod cyfnod hirfaith lle nad oedd y cyngor yn gallu darparu ei becynnau cymorth dwys i deuluoedd yn eu cartrefi, oherwydd y feirws a'r materion diogelwch sy'n gysylltiedig â gwneud hynny; nid oedd gan deuluoedd yr allfeydd arferol er mwyn lleihau straen, fel plant yn mynd i'r ysgol, ychwaith. Hysbyswyd y pwyllgor fod pwysau cynyddol ar draws y sector Plant sy'n Derbyn Gofal ac yn enwedig y sector gofal preswyl o ganlyniad i hyn; rhagwelwyd y byddai angen 3 neu fwy o leoliadau ychwanegol eleni. Sicrhawyd yr aelodau pan fo angen i blant fynd i ofal neu pan fo angen diwallu eu hanghenion mewn lleoliadau gofal preswyl, y bydd hyn yn cael ei wneud; a hefyd pan fo'n briodol, aduno plant â'u teuluoedd.

O ran gofal preswyl i'r henoed, nododd yr adroddiad y gallai fod gostyngiad o fis Medi 2021 yn swm y cymorth ariannol a gallai hyn effeithio ar ddichonoldeb rhai lleoliadau a darparwyr gofal. Mynegodd yr aelodau eu pryderon ynglŷn â hyn a gofynnwyd a allai swyddogion ymhelaethu ymhellach ar y datganiad hwn, gan ymhelaethu ar beth fyddai'r canlyniadau i'r Gyfarwyddiaeth a'r cyngor ehangach. Hysbyswyd yr aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn darparu cymorth ariannol i gartrefi gofal preswyl a oedd yn is na'r trothwy o 90% o feddiannaeth; ym mis Medi 2021, roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu lleihau hyn. Soniwyd bod rhai cafeatau i hyn, ond nid oedd swyddogion yn ymwybodol o'r manylion hyd yma. Tynnodd yr adroddiad sylw at y ffaith os nad yw'r gostyngiad mewn cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru yn cael ei drin yn ofalus, yna byddai'r cyngor yn rhagweld y gellid gadael nifer sylweddol o gartrefi gofal mewn sefyllfa anymarferol ariannol; sy'n golygu y gallai fod angen i rai cartrefi gofal gau, gan adael llai o gartrefi gofal ar gyfer y dyfodol. Dywedodd swyddogion, yn dibynnu ar y canlyniad, efallai y bydd angen i'r cyngor gamu i mewn i gefnogi'r sector yn ariannol; caiff

adroddiad manwl ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles a fydd yn cynnwys rhai o'r rhagfynegiadau.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r tanwariant o ran 'gofal cymunedol/taliadau uniongyrchol eraill'; gofynnwyd a oedd y tanwariant yn gysylltiedig â'r pandemig a'r oedi posib wrth asesu'r rheini yr oedd angen gofal arnynt. Cadarnhawyd bod y sector yn cael problemau o ran recriwtio i ofal cartref a chyda darparu taliadau uniongyrchol oherwydd effaith COVID-19; roedd nifer o weithwyr gofal cartref hefyd a oedd wedi dal y feirws ac wedi mynd yn sâl iawn, ac felly nid oeddent yn gweithio. Dywedodd swyddogion fod hyn yn broblem i gynghorau ledled Cymru a Lloegr a'i fod yn rhywbeth yr oedd angen edrych arno'n genedlaethol.

Gofynnwyd a oedd yn bosib cynnwys y balans o flynyddoedd blaenorol yng nghrynodeb y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol yn yr adroddiadau bob mis wrth symud ymlaen. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol na fyddai unrhyw fanteision i edrych ar y balans o flynyddoedd blaenorol, gan y byddai cymaint o wahanol effeithiau wedi bod ar hyd y blynyddoedd amrywiol; ni fyddai'n darparu unrhyw wybodaeth ystyrlon gan mai cydbwysedd y flwyddyn gyffredol oedd y ffigur o werth gwirioneddol.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Adroddiad Monitro Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2021/22

Derbyniodd y pwyllgor adroddiad a oedd yn nodi camau gweithredu a gwybodaeth rheoli'r trysorlys ar gyfer chwarter cyntaf 2021/22.

Wedi'i nodi yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, dywedodd fod Banc Lloegr wedi rhybuddio y bydd y pandemig yn arwain at effaith economaidd 'miniog a mawr'; Gofynnodd yr aelodau pa fesurau yr oedd y cyngor wedi'u trefnu i ymdrin â thoriadau mor eithafol. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod llawer o ddyfalu'n digwydd ar draws y marchnadoedd ariannol ynglŷn â sut yr oedd Llywodraeth y DU yn mynd i gydbwysu ei chyllidebau blaengar ar ôl COVID-19. Ar hyn o bryd roeddent yn gweithio ar adolygiad cynhwysfawr o wariant a oedd i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd. Soniwyd bod llawer o wahanol negeseuon yn cael eu cyfathrebu o'r Llywodraeth; nes bydd rhai o'r rheini'n mynd drwy'r adolygiad penodol hwnnw o wariant a datganiadau cyllideb y Canghellor, a oedd i fod i gael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd, ni fydd gan y cyngor unrhyw sicrwydd gwirioneddol o ran faint o arian oedd yn cael ei fuddsoddi mewn

gwariant cyhoeddus. Hysbyswyd yr aelodau fod gwaith wedi'i wneud gan Ddadansoddi Cyllid Cymru a'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn Lloegr; roedd yn ymddangos bod dadansoddiad Cymru'n awgrymu y gallai arian cyhoeddus Cymru gynyddu 0.9% y flwyddyn nesaf neu hyd at 2.9% o bosib ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Nodwyd pe bai hyn yn wir, y byddai'n her sylweddol, yn enwedig gan nad oedd y pandemig wedi dod i ben a bod COVID-19 wedi cael effaith ar y ffordd y rheolwyd y cyllid cyffredinol. O ran y trefniadau, soniwyd bod swyddogion yn bwriadu datblygu Blaengynllun Ariannol i'w gyflwyno i'r aelodau yng nghyfnod yr hydref a byddai Seminar ar gyfer yr holl aelodau tua diwedd mis Medi; byddai'r rhain yn rhoi syniad i'r aelodau o'r tybiaethau a oedd yn rhan o'r cynlluniau ar gyfer 2022/23 ac ymlaen.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

5. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nododd y Pwyllgor Flaenraglen Craffu'r Cabinet ar gyfer 2021/22.

6. **EITEMAUBRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r materion sydd wedi'u cynnwys yng Nghofnod Rhif. 7 ac 9 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi'r eitemau hyn yng nghyfarfod heddiw fel eitemau brys yn unol ag Offeryn Statudol rhif 2290 (fel y'i diwygiwyd).

Rhesymau dros y brys:

Oherwydd yr elfen amser.

7. **CYNNIG I DDARPARU PARCIO AM DDIM YNG NGHANOL Y DREF AR GYFER MIS AWST 2021**

(Ail-gadarnhaodd y Cyng. S Rahaman a'r Cynghorydd N Hunt eu budd ar y pwynt hwn a gadawsant y cyfarfod)

Cyflwynwyd adroddiad i'r aelodau a oedd yn nodi cynigion i ddarparu parcio am ddim yng nghanol y dref yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ystod mis Awst 2021.

Gofynnwyd i swyddogion gadarnhau sut y byddai'r ffioedd yn cael eu hariannu. Cadarnhawyd y byddai'r ffioedd yn cael eu had-dalu o gyllideb neu gronfeydd wrth gefn presennol y cyngor.

Gofynnwyd a oedd ffordd o fonitro effaith defnyddio meysydd parcio yn ystod y cyfnod hwn ac a oedd ffordd o gasglu unrhyw adborth gan fusnesau. Dywedodd swyddogion y byddai angen iddynt gymharu data cyn COVID-19, a data'r flwyddyn gyfredol ar gyfer y chwarter cyntaf, a monitro'r incwm misol a dderbyniwyd o bob maes parcio ar draws y Fwrdeistref Sirol; dyma fyddai'r ffordd fwyaf effeithlon o wneud hyn, gan y byddai cynnal arolygon ar lawr gwlad yn gofyn am adnodd mawr. Awgrymwyd, ar ôl cyfnod y Nadolig, y dylid cyflwyno adroddiad i'r aelodau i ddangos rhai tueddiadau o ran sut y perfformiodd y cynllun o ran ei incwm.

Cytunwyd y byddai'r Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianeg yn cysylltu â chydweithwyr yn y Tîm Adfywio, yn benodol y Rheolwyr Canol Trefi, i nodi ffordd o gael adborth gan fusnesau canol y dref.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r prosiect peilot ar barcio am ddim yng nghanol y dref y cytunodd Llywodraeth Cymru arno ychydig flynyddoedd yn ôl; Gofynnodd yr aelodau a oedd unrhyw wybodaeth ar gael am ganlyniad y cynllun peilot hwnnw a'r rhagolygon y byddai'n cael ei gyflwyno'n fwy cyson. Dywedodd swyddogion nad oedd pob awdurdod wedi cymryd rhan yn y fenter hon; Roedd gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot rywfaint o brofiad o'r cynigion yr oedd y cyngor wedi'u cyflwyno, ac ar y pryd roedd hynny'n gysylltiedig â hen Ardal Gwella Busnes Castell-nedd (BID). Soniwyd eu bod wedi cyflwyno cyfrifwyr nifer yr ymwelwyr a'u bod wedi sgwrsio â'r busnesau i nodi sut yr oedd y mentrau hynny'n gweithio, a chafodd y cyngor rywfaint o adborth cychwynol o hynny. Yn hanesyddol, nodwyd bod Cyngor Castell-nedd Port Talbot bob amser wedi cynnig parcio am ddim dros y Nadolig; cyn y pandemig, derbyniodd swyddogion rywfaint o dystiolaeth gan Reolwr Canolfan Siopa Aberafan a fynegodd gynnydd o 11% yn nifer yr ymwelwyr bryd hynny. Ychwanegodd swyddogion ei bod yn anodd iawn i'r cyngor wneud datganiad clir ynghylch pa wahaniaeth ffeithiol a wnaeth i'r stryd fawr a ffyniant. Hysbyswyd yr aelodau o Adolygiad Portas a gynhaliwyd, ac o hynny cynhaliwyd nifer o astudiaethau am ailfeddwl y sefyllfa o ran parcio ar y stryd fawr; mae canol trefi wedi dioddef cyn y pandemig a hyd yn oed yn fwy erbyn hyn, o ganlyniad i'r pandemig. Dywedwyd bod parcio ceir yn agwedd allweddol a effeithiodd ar sut yr oedd canol tref yn perfformio; fodd bynnag, dim ond un agwedd ar y mater oedd incwm parcio, ac roedd nifer o rai eraill y bydd yr agenda Adfer, Ailosod, Adnewyddu yn eu hystyried wrth symud ymlaen, fel rhan o adferiad canol y dref. Roedd swyddogion yn gobeithio y bydd y fenter hon yn helpu i helpu i adfer canol y dref am y cyfnod byr, cyn

gwneud asesiadau pellach wrth symud ymlaen; roedd llawer mwy o waith i'w wneud ynghylch y pwnc hwn.

Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn cyfeirio at y cynllun bws am ddim yn Abertawe; Roedd yr aelodau'n gobeithio cael gwybodaeth am ganlyniad y cynllun hwn ac roeddent yn siomedig nad oedd cydlynu o ran cyflwyno cynllun posib ar y cyd rhwng Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Er bod Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi gweithio'n agos iawn yn rhanbarthol gyda chydweithwyr ar draws y sector bysus, dywedwyd nad oedd yn hysbys i'r cyngor fod Abertawe'n cynnig y cynllun; Byddai swyddogion yn gofyn i gydweithwyr yn Ninas a Sir Abertawe a allent rannu effeithiau consesiynol nifer yr ymwelwyr ar y gwasanaethau hynny. Hysbyswyd yr aelodau fod Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru wedi gweld y datganiadau i'r wasg ac wedi dangos diddordeb mewn nodi sut roedd y cynllun hwnnw wedi gweithio yn y dyfodol; roedd ymrwymiad ar Ddinas a Sir Abertawe i rannu'r wybodaeth honno drwy'r Gymdeithas Swyddogion Cydgysylltu Trafnidiaeth (ATCO) a fydd yn galluogi'r cyngor i gael mynediad at eu straeon llwyddiant neu fel arall. Ychwanegodd swyddogion, wrth ystyried yr adolygiad ehangach a oedd yn cael ei gynnal, ei fod yn bwysig nodi bod gwasanaethau bysus mewn rhai rhannau o'r gymuned yn ddiffygiol ar hyn o bryd, a oedd yn fater y byddai'n parhau i gael ei ystyried.

Soniwyd bod rhai Aelodau Etholedig a staff y cyngor yn talu ffioedd blynyddol am barcio fel rhan o'r cynllun trwyddedau; Gofynnodd yr aelodau a fyddai unrhyw arian yn cael ei ad-dalu i'r unigolion hynny am y misoedd rhydd a fyddai ar gael fel rhan o'r fenter. Dywedodd swyddogion y byddai'n swm bach o ran darparu ad-daliad misol, felly yn lle byddai'r cyngor yn ychwanegu mis ychwanegol at bob trwydded fel na fyddai unrhyw niwed iddynt yn ariannol.

Gofynnodd yr aelodau a oedd unrhyw feysydd parcio wedi'u heithrio o'r cynllun. Cadarnhawyd mai dim ond i feysydd parcio talu ac arddangos canol y dref y mae'r cynllun yn berthnasol; nid oedd meysydd parcio'r Parc Gwledig a meysydd parcio Glan Môr Aberafan wedi'u cynnwys yn y fenter. Ychwanegodd swyddogion fod nifer o feysydd parcio ar draws y Fwrdeistref Sirol lle nad oedd unrhyw ffioedd yn berthnasol ac na fyddai'r cynllun yn effeithio ar hyn ychwaith.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

(Ailymunodd y Cyng. S Rahaman a'r Cyngorydd N Hunt â'r cyfarfod o'r pwynt hwn ymlaen)

8. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

PENDERFYNWYD: Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

9. **GROUND LEASE OF LAND AND BUILDINGS AT NEATH ABBEY INDUSTRIAL ESTATE NEATH - PROPOSED PURCHASE OF FREEHOLD REVERSIONARY INTEREST**

Rhoddwyd adroddiad i'r aelodau a oedd yn manylu ar y bwriad i brynu buddiant refersiynol rhydd-ddaliad sy'n ymwneud â phrydlesu tir ac adeiladau yn Ystâd Ddiwydiannol Abaty Castell-nedd yng Nghastell-nedd.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

CADEIRYDD